

PAPUR HYSBYSU 3 CLWSTWR YNGHYLCH POLISÏAU

# EFFAITH GOSTYNGIAD TRETH SECTOR Y FFILMIAU A THELEDU AR GYMRU

CYNNWYS ALLWEDDOL ADRODDIAD 2021 SEFYDLIAD FFILMIAU PRYDAIN.

Máté Miklós Fodor, Marlen Komorowski, Sara Pepper a Justin Lewis
Ionawr 2022

## YNGLŶN Â'R ADRODDIAD

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o raglen Clwstwr, prosiect pum mlynedd sy'n anelu at roi arloesi wrth wraidd cynhyrchu cyfryngau yn y de. Hoffai Clwstwr ychwanegu at lwyddiant y deheubarth ynghylch llunio cynnwys creadigol trwy roi ymchwil a datblygu wrth wraidd cynhyrchu.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

### CLWSTWR

Neuadd y Ddinas
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3ND
Ffôn: 029 2251 1434
Ebost: clwstwrcreadigol@caerdydd.ac.uk
Twitter: @ClwstwrCreu
www.clwstwr.org.uk

# CRYNODEB O'R GWAITH

Fis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Sefydliad Ffilmiau Prydain ei adroddiad diweddaraf (Screen Report)[1], gan ddadansoddi sut roedd gostyngiad treth sector ffilmiau a theledu'r deyrnas wedi effeithio ar fudd-ddalwyr a'r economi yn 2019. Mae'r adroddiad yn cynnwys data cyffredinol a rhai sy'n benodol i amryw wledydd y deyrnas: **diben hyn o adroddiad yw crynhoi'r data pwysicaf am Gymru**. Mae'n crynodeb yn cymharu Cymru â gweddill y deyrnas hefyd, gan ganolbwyntio ar ddau sector: teledu pen uchel a gwneud ffilmiau.

Sefydlwyd disgownt treth ffilmiau'r deyrnas yn 2007 i ddenu rhagor o gynhyrchu a hybu'r diwydiant. Mae'r disgownt treth a gyhoeddwyd yn 2013 a 2014 yn cynnig yr un buddion i deledu pen uchel, cartwnau i'w darlledu a gêmau fideo. Uned Ardystio Sefydliad y Ffilmiau yw'r ddolen gyswllt ag ymgeiswyr a hoffai dalu llai o dreth.

Mae'r mathau hyn o ddisgownt yn galluogi cwmni cynhyrchu a chanddo brosiect addas i adennill 25% o'i wariant priodol. Mae'r disgownt yn berthnasol i 80% o gyllideb y cynhyrchu. Un o ddibenion y disgownt yw y dylai fod sgil-effeithiau ar y gwledydd a'r rhanbarthau lle mae'r cynhyrchu'n digwydd, gan effeithio'n fawr ar economïau lleol.

**Mae'n dadansoddiad o ddata Sefydliad y Ffilmiau yn dangos bod y disgownt wedi effeithio'n fawr ar deledu pen uchel a ffilmiau yng Nghymru.** Mae rôl flaenllaw i sectorau teledu pen uchel a gwneud ffilmiau Cymru o'u cymharu â gweddill y deyrnas, o ran gwario'n effeithlon a deilliannau gwerth ychwanegol crynswth fel ei gilydd. Dyma rai o'r prif ganfyddiadau:

- O ganlyniad i'r disgownt i sector y **gwneud ffilmiau**, cynyddodd gwerth ychwanegol crynswth gwariant cwmnïau lleol o naw gwaith.
- I bob gweithiwr ychwanegol yn sector **teledu pen uchel** Cymru, daeth £59,000 ychwanegol ar draws cadwyn y gwerth trwy'r disgownt. Yr uchaf ond un yw gwerth ychwanegol crynswth Cymru ymhlith y gwledydd a'r rhanbarthau (tua £57,000 yw cyfartaledd y deyrnas gyfan).
- Bydd pob £100,000 a ddaw trwy'r disgownt yn galluogi sector gwneud ffilmiau Cymru i gyflogi 14 gweithiwr ychwanegol – cymhareb uchaf y deyrnas ond un ymhlith y gwledydd a'r rhanbarthau.

[1] Dyma adroddiad Sefydliad y Ffilmiau yn ei gyfanrwydd: https://www.bfi.org.uk/industry-data-insights/reports/uk-screen-sector-economy

- Arweiniodd pob punt a ddaeth trwy'r disgownt ac a wariwyd ar **gynhyrchu ffilmiau** wedyn at £8.8 o ran gwerth ychwanegol crynswth ar draws cadwyn gwerth cynhyrchu ffilmiau Cymru – ac mae hynny'n uwch o lawer na chyfartaledd y deyrnas, sef £2.5. Yr uchaf ond un ymhlith gwledydd a rhanbarthau'r deyrnas yw ffigur Cymru.
- Arweiniodd pob punt ychwanegol a wariwyd yng Nghymru o achos disgownt treth i **deledu pen uchel** at £1.5 ar draws cadwyn y gwerth. Mae hynny ychydig yn is na chyfartaledd y deyrnas, £1.8.

# Effaith disgownt treth ar gynhyrchu teledu pen uchel yng Nghymru

## Deilliannau o ran swyddi a gwerth ychwanegol crynswth

Mae data fersiwn diweddaraf yr astudiaeth (2019)[2] ar effaith y disgownt i gynhyrchu rhaglenni teledu pen uchel yn y deyrnas hon yn dangos bod llai o dreth wedi galluogi'r sector yng Nghymru i wario **£71.4 miliwn ychwanegol** ar gynhyrchu neu fuddsoddiadau eraill megis prynu cyfalaf diriaethol neu arloesi. O ganlyniad, mae Cymru yn bumed ymhlith gwledydd a rhanbarthau'r deyrnas ar ôl Llundain, gogledd Lloegr, de-orllewin Lloegr a'r Alban (gweler Tabl 1). **Mae'r gwario hwn wedi galluogi sector teledu pen uchel Cymru i gynnal 1,260 o swyddi amser llawn a chreu gwerth ychwanegol crynswth o £63.2 miliwn.**

| Rhanbarth neu wlad | Cyfanswm y gwario ychwanegol (£m) | Swyddi amser llawn cyfatebol yn sgîl rhagor o wario | Gwerth ychwanegol crynswth yn sgîl rhagor o wario (£m) |
|---|---|---|---|
| **Cymru** | 71.40 | 1,260 | 63.20 |
| **Llundain** | 1,341.60 | 33,548 | 1,672.00 |
| **Gogledd-orllewin Lloegr** | 262.20 | 4,458 | 222.10 |
| **De-orllewin Lloegr** | 126.30 | 2,086 | 103.90 |
| **Yr Alban** | 104.90 | 2,091 | 104.40 |
| **Swydd Efrog a Humber** | 59.70 | 1,518 | 75.60 |
| **De-ddwyrain Lloegr** | 46.40 | 1,640 | 81.70 |
| **Gogledd Iwerddon** | 29.60 | 486 | 24.20 |
| **Dwyrain Lloegr** | 17.80 | 754 | 37.50 |
| **Gogledd-ddwyrain Lloegr** | 14.40 | 274 | 13.70 |
| **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | 3.70 | 591 | 29.40 |
| **Dwyrain Canolbarth Lloegr** | 0.30 | 452 | 22.50 |
| **Cyfanswm** | **2,078.30** | **49,160** | **2,450.30** |

Tabl 1: Gwariant sector y teledu pen uchel o achos disgownt treth yn 2019, yn ogystal â'r swyddi mae'n eu cynnal a'r gwerth mae'n ei gynhyrchu, fesul rhanbarth neu wlad. Ffynhonnell: Adroddiad 2021 Sefydliad Ffilmiau Prydain

[2] Mae Sefydliad y Ffilmiau'n ystyried effaith disgownt treth ar gyfer cynhyrchu rhaglenni teledu pen uchel mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae'n amcangyfrif effaith y sector ar ei ben ei hun gan atgyfnerthu hynny wedyn trwy astudio'r effaith ar hyd holl gadwyn y gwerth. Gan gynnwys gwaith cwmnïau gwerthu a chyflenwi yn ogystal â gweithwyr llawrydd sydd wedi elwa ar wario ychwanegol y sector o ganlyniad i ddisgownt treth. Mae cadwyn y gwerth yn cynnwys y rhai sy'n defnyddio cynnyrch sector y teledu pen uchel ar gyfer eu nwyddau neu eu gwasanaethau eu hunain. Mae angen nodi yma na fydd y gwario ychwanegol o ganlyniad i ddisgownt treth yn cyfateb yn uniongyrchol i faint mae sector teledu pen uchel pob gwlad neu ranbarth wedi'i gynhyrchu. Gall fod costau cysylltiedig a phrosesau cynhyrchu gwahanol iawn i'r rhaglenni, a bydd hynny'n effeithio'n sylfaenol ar faint o dreth sydd i'w mynnu.

Os edrychwn ni ar holl gadwyn gwerth y sector, gan gynnwys pob cyflenwr a defnyddiwr, fe welwn ni fod yr effeithiau ar swyddi a'r gwerth ychwanegol crynswth yn gryfach na'r rhai pan ystyriwn ni'r sector ar ei ben ei hun. Mae Cymru yn chweched ynghylch faint o swyddi mae'r sector yn eu cynnal ledled cadwyn y gwerth trwy ragor o wario yn sgîl disgownt treth ac yn bumed o ran gwerth ychwanegol crynswth (gweler Tabl 2).

Mae'r gwahaniaeth rhwng safle Cymru yng ngholofn olaf Tabl 1 (seithfed) a cholofn olaf Tabl 2 (pumed) yn awgrymu bod effaith disgownt treth ar holl gadwyn y gwerth yn gryfach nag sydd ar y sector ar ei ben ei hun. Mae hynny'n dangos bod cadwyn gwerth sector teledu pen uchel Cymru yn hwy ac yn fwy cynhwysol na chadwyni rhanbarthau neu wledydd eraill.[3]

A bod yn gymesur, mae crewyr teledu pen uchel Cymru yn fwy tebygol o ddibynnu ar wasanaethau lleol na'u cyfatebion yng ngweddill y deyrnas, ac mae cadwyn y gwerth yn fwy cynhwysol i gwmnïau lleol o ganlyniad. At hynny, maen nhw'n fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau a nwyddau Cymru ar gyfer amrywiaeth ehangach o orchwylion na'u cyfatebion yng ngweddill y deyrnas ac mae cadwyn gwerth y sector yn hwy o ganlyniad. Bydd cyflenwyr yng Nghymru yn defnyddio'r elw a ddaw trwy wariant ychwanegol y sector i brynu nwyddau a gwasanaethau, hefyd.

---

[3] Gallai fod dau esboniad am hynny. Y naill yw y gallai sector teledu pen uchel Cymru ddefnyddio mwy o nwyddau a gwasanaethau cyflenwyr a gweithwyr llawrydd na sectorau cyfatebol rhanbarthau a gwledydd eraill. Y llall yw bod cynnyrch sector teledu pen uchel Cymru yn cyfrannu mwy at ragor o gynhyrchu cynyddrannol na sectorau cyfatebol rhanbarthau a gwledydd eraill (o ystyried cynnyrch y sector yn un cyfryngol). Gallai fod yn gyfuniad o'r ddau, mewn gwirionedd.

| Rhanbarth neu wlad | Cyfanswm y gwario ychwanegol (£m) | Swyddi amser llawn cyfatebol mae'r gwario ychwanegol yn eu cynnal trwy holl gadwn y gwerth | Gwerth ychwanegol crynswth yn sgîl rhagor o wario trwy holl gadwn y gwerth (£m) |
|---|---|---|---|
| Cymru | 71.40 | 1,855 | 108.70 |
| Llundain | 1,341.60 | 487 | 24.30 |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 262.20 | 894 | 47.80 |
| De-orllewin Lloegr | 126.30 | 45,240 | 2,639.20 |
| Yr Alban | 104.90 | 727 | 42.00 |
| Swydd Efrog a Humber | 59.70 | 291 | 14.40 |
| De-ddwyrain Lloegr | 46.40 | 5,565 | 305.40 |
| Gogledd Iwerddon | 29.60 | 2,228 | 114.10 |
| Dwyrain Lloegr | 17.80 | 1,921 | 102.60 |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 14.40 | 2,422 | 128.40 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 3.70 | 944 | 55.70 |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 0.30 | 1,735 | 91.60 |
| **Cyfanswm** | **2,078.30** | **64,310** | **3,674.30** |

Tabl 2: Gwariant sector y teledu pen uchel o achos disgownt treth yn 2019, yn ogystal â'r swyddi mae'n eu cynnal a'r gwerth mae'n ei gynhyrchu trwy holl gadwyn y gwerth, fesul rhanbarth neu wlad. Ffynhonnell: Adroddiad 2021 Sefydliad Ffilmiau Prydain

## Effeithlonrwydd cyffredinol cymharol gwariant sector teledu pen uchel yn sgîl disgownt treth

O gyfuno data Sefydliad y Ffilmiau â dadansoddiad Clwstwr,[4] mae modd gweld bod pob £100,000 o wario ychwanegol yn sgîl disgownt treth yn cynnal 2.6 swydd amser llawn yng Nghymru (trwy gadwyn gwerth sector y teledu pen uchel i gyd gan gynnwys swyddi cyflenwyr a defnyddwyr - gweler Tabl 3).

Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos bod sector teledu pen uchel Cymru yn cynhyrchu £1.5 o werth ychwanegol crynswth trwy holl gadwyn y gwerth yn sgîl pob punt ychwanegol mae

[4] Yn y rhan hon, mae canlyniad dadansoddiad Clwstwr o ddata Sefydliad y Ffilmiau. Mae'n asesu pa mor effeithlon y bydd sector y teledu pen uchel yn gwario'r arian ychwanegol ynghylch creu swyddi a chynhyrchu rhagor o werth. I weld effeithlonrwydd y gwario mewn modd cyfannol, rydyn ni wedi astudio cadwyn gwerth teledu pen uchel i gyd. Yn gyntaf, rydyn ni wedi pennu faint o swyddi amser llawn sydd wedi'u cynnal gan bob £100,000 o wario ychwanegol o ganlyniad i ddisgownt treth. 2.6 yw'r nifer yng Nghymru, ond rhaid nodi nad yw'n ymwneud â chyflogau nac enillion yn y sector. Gall peth gwario ychwanegol gynnal rhagor o swyddi neu lai yn ôl sut yn union mae arian y disgownt wedi'i ddefnyddio, a gall hynny amrywio ym mhob rhanbarth. Er enghraifft, o ddefnyddio'r arian ar gyfer buddsoddi hirdymor neu arloesi yn bennaf, fydd effaith ar swyddi ddim yn amlwg dros y tymor byr, o reidrwydd. O'i wario'n uniongyrchol ar brosiectau a chynnyrch, fodd bynnag, gall fod modd creu llawer mwy o swyddi dros y tymor byr ar yr amod bod popeth wedi'i gynhyrchu trwy lafur yn bennaf, nid cyfalaf. Mae hynny'n berthnasol i'r gwerth ychwanegol crynswth a ddaw trwy ddisgownt y sector, hefyd. Mae'n bwysig nodi yma fod y niferoedd ar gyfer dwyrain a gorllewin canolbarth Lloegr yn uchel iawn ac efallai eu bod mor uchel am fod sectorau cymharol lai wedi elwa'n gymharol fwy ar uned benodol o wario ychwanegol na rhai mwy.

wedi'i gwario o achos disgownt treth - elw o 50% ar wariant. Mae'r ffigur tua'r un faint ymhlith gwledydd a rhanbarthau'r deyrnas.

Mae Cymru yn ail yn y deyrnas o ran cynhyrchiant ymylol.[5] Mae hynny wedi'i fesur trwy bennu faint o werth ychwanegol crynswth y bydd rhagor o wario gan y sector o achos disgownt treth yn ei gynhyrchu fesul gweithiwr, wedi'i gynnal gan yr un gwariant. [6] Ystyr cynhyrchiant ymylol yw faint y bydd gweithwyr newydd y sector yn ei gynhyrchu, gan ddangos faint mae'r sector wedi'i gyfrannu er twf y wlad neu'r rhanbarth o dan sylw. Mae cynhyrchiant ymylol uchel yn dangos twf cryf, am y bydd llafur newydd yn ychwanegu gwerth sylweddol. Ar y llaw arall, mae cynhyrchiant ymylol is yn dangos bod rhagor o weithwyr yn newid llai o ran cynhyrchiant cyffredinol.

I ddyrannu llafur yn y modd mwyaf effeithiol, byddwch chi'n anfon gweithwyr newydd i'r rhanbarthau lle y gallan nhw gyfrannu i'r eithaf (o ran eu cynhyrchiant ymylol). A Chymru'n ail yn y deyrnas o ran gwerth ychwanegol crynswth trwy weithwyr newydd yn y sector hwn, bydd yn denu pobl alluog. Bydd y llif hon yn parhau nes bod cynnyrch ychwanegol gweithiwr newydd wedi cyrraedd costau llafur megis cyflogau a buddion. Felly, bydd rhanbarthau lle mae cynhyrchiant llafur ymylol yn uchel yn fwy deniadol i weithwyr newydd am fod cynhyrchiant ymylol yn fwy na chyflogau. I'r graddau y mae cyfalaf yn sector y teledu pen uchel yn atgyfnerthu llafur, mae'n debygol y bydd rhagor o gyflogi yng Nghymru yn dod law yn llaw â rhagor o fuddsoddi yn yr offer, gan greu posibiliadau addawol er twf yn y sector. Mae rhagor o dan droednodyn 5.

| Rhanbarth neu wlad | Nifer y swyddi amser llawn cyfatebol mae pob | Elw (o ran gwerth ychwanegol crynswth) trwy | Gwerth ychwanegol crynswth mae rhagor |
|---|---|---|---|

[5] Mae cynhyrchiant ymylol yn mesur cynnyrch ychwanegol a ddaw trwy ychwanegu uned lafur, gan gadw pob elfen arall o'r cynhyrchu yr un fath (cyfalaf diriaethol, cyfalaf anniriaethol, lefel yr arloesi ac ati). Mae 'uned' o'r fath yn gynnydd bychan iawn yn y defnydd o lafur (mewn cwmni, er enghraifft), megis gweithiwr neu awr ychwanegol at drefn sy'n gweithredu'n gynhyrchiol eisoes. Mae cynhyrchiant ymylol uchel yn awgrymu bod pob gweithiwr newydd yn cynhyrchu llawer ac mae ffigur isel yn awgrymu nad yw'r gweithwyr newydd yn gynhyrchiol. I ddyrannu llafur yn y modd mwyaf effeithiol, byddwch chi'n anfon gweithiwr newydd i'r rhanbarth ac ynddo'r cynhyrchiant ymylol uchaf. Felly, mae'n dilyn y bydd rhanbarthau sy'n dangos cynhyrchiant ymylol cymharol uwch yn gallu denu rhagor o weithwyr newydd na rhanbarthau eraill.
Mae'r dull mesur yn y tabl yn frasamcan digonol ar gyfer cynrychioli cynhyrchiant ymylol yn addas. Mae'r niferoedd yn y bedwaredd golofn yn dangos faint o werth ychwanegol crynswth mae gweithiwr newydd wedi'i greu. Mae'r gweithiwr ychwanegol hwnnw wedi'i gyflogi achos bod rhagor o arian i'w dalu yn sgîl disgownt treth. Fel arall, byddai'r gweithwyr hynny yn ymwneud â gweithgareddau y tu allan i'r sector. Dyna'r rheswm dros ystyried eu swyddi a'u cynnyrch ychwanegol yn llinyn mesur cynhyrchiant ymylol.

[6] Yn hytrach na mesur y cynhyrchiant i gyd, mae'n mesur cynhyrchiant ymylol trwy ddirprwy. A hynny am ei fod yn mesur gwerth ychwanegol crynswth wedi'i greu gan weithwyr newydd a fyddai rhywle arall oni bai am ddisgownt treth.

| | £100,000 o wario ychwanegol wedi'u cynnal trwy holl gadwyn y gwerth | holl gadwyn y gwerth yn sgîl gwario pob punt ychwanegol | o wario yn ei gynnal trwy holl gadwn y gwerth, fesul gweithiwr |
|---|---|---|---|
| **Cymru** | 2.6 | £1.50 | £58,598.40 |
| **Llundain** | 3.4 | £2.00 | £58,337.80 |
| **Gogledd-orllewin Lloegr** | 2.1 | £1.20 | £54,878.70 |
| **De-orllewin Lloegr** | 1.9 | £1.00 | £53,014.00 |
| **Yr Alban** | 2.1 | £1.10 | £51,211.80 |
| **Swydd Efrog a Humber** | 2.9 | £1.50 | £52,795.40 |
| **De-ddwyrain Lloegr** | 4.1 | £2.20 | £53,409.70 |
| **Gogledd Iwerddon** | 2.5 | £1.40 | £57,771.70 |
| **Dwyrain Lloegr** | 5.0 | £2.70 | £53,467.60 |
| **Gogledd-ddwyrain Lloegr** | 2.0 | £1.00 | £49,484.50 |
| **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | 25.5 | £15.10 | £59,004.20 |
| **Dwyrain Canolbarth Lloegr** | 162.3 | £81.00 | £49,897.30 |
| **Cyfanswm** | **3.1** | **£1.80** | **£57,134.20** |

Tabl 3: Swyddi amser llawn a gwerth ychwanegol crynswth yng nghadwyn gwerth teledu pen uchel trwy wario rhagor yn sgîl disgownt treth, yn ogystal â mesur y gwerth ychwanegol fesul gweithiwr newydd. Daw'r data o 2019. Ffynhonnell: Adroddiad 2021 Sefydliad Ffilmiau Prydain

## Deilliannau o ran swyddi a gwerth ychwanegol crynswth

Mae'r data'n[7] dangos bod sector gwneud ffilmiau Cymru wedi gwario £6.4 miliwn ychwanegol *o ganlyniad uniongyrchol i ddisgownt treth* (gweler Tabl 4), un o ffigurau isaf y deyrnas (nawfed ymhlith yr amryw wledydd a rhanbarthau). Mae'n bwysig nodi nad yw gwario ychwanegol yn sgîl disgownt treth yn adlewyrchu ehangder sectorau'r amryw wledydd a rhanbarthau yn y maes hwn o reidrwydd am y gallai incwm trethadwy gwneuthurwyr ffilmiau amrywio'n fawr fesul gwlad neu ranbarth.

| Rhanbarth neu wlad | Cyfanswm y gwario ychwanegol (£m) | Swyddi amser llawn cyfatebol yn sgîl rhagor o wario | Gwerth ychwanegol crynswth yn sgîl rhagor o wario (£m) |
|---|---|---|---|
| Cymru | 6.40 | 240 | 12.50 |
| Llundain | 1624.40 | 37685 | 1958.20 |
| De-ddwyrain Lloegr | 166.10 | 2386 | 123.90 |
| Yr Alban | 60.40 | 1171 | 61 |
| De-orllewin Lloegr | 46.60 | 864 | 44.90 |
| Swydd Efrog a Humber | 39.50 | 932 | 48.40 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 25.10 | 428 | 22.20 |
| Gogledd Iwerddon | 25.00 | 765 | 39.70 |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 12.70 | 171 | 8.90 |
| Dwyrain Lloegr | 4.80 | 410 | 21.30 |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 4.70 | 147 | 7.60 |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | >0 | 262 | 13.60 |
| **Cyfanswm** | **2015.80** | **45480** | **2362.30** |

Tabl 4: Gwariant sector y gwneud ffilmiau o ganlyniad uniongyrchol i ddisgownt treth yn 2019, yn ogystal â'r swyddi mae'n eu cynnal a'r gwerth mae'n ei gynhyrchu fesul rhanbarth neu wlad. Ffynhonnell: Adroddiad 2021 Sefydliad Ffilmiau Prydain
Sylwer: Mae Sefydliad y Ffilmiau o'r farn bod y gwario ychwanegol yn sgîl disgownt treth yn 2019 yn gyfwerth â dim (o achos talgrynnu, efallai) ac, felly, allwn ni ddim pennu'r gwir ffigur.

Gan fod gwariant ychwanegol gwneuthurwyr ffilmiau Cymru o ganlyniad uniongyrchol i ddisgownt treth yn gymharol isel, bydd nifer y swyddi mae'n eu cynnal a'r gwerth ychwanegol crynswth mae'n ei greu yn gymharol isel hefyd (heb ystyried gweddill cadwyn y gwerth). Mae'r naill yn cyfateb i ryw 240 o weithwyr amser llawn ac mae'r gwariant

[7] Mae'r strwythur, y cyflwyno a'r dadansoddi yn y rhan hon yn debyg i destun a thablau'r rhan uchod. Awgrymwn y dylech chi ei darllen i weld crynodeb mwy cynhwysfawr o fanylion ein dadansoddi.

ychwanegol (£6.4 miliwn) wedi creu tua £12.5 miliwn o werth ychwanegol crynswth yng Nghymru (gweler Tabl 4).

Yn yr un modd, mae nifer y swyddi sydd wedi'u cynnal a'r gwerth ychwanegol crynswth sydd wedi'i gynhyrchu trwy holl gadwyn gwerth sector gwneud ffilmiau Cymru o achos gwario rhagor o arian yn sgîl disgownt treth yn gymharol isel.[8] Cynhaliodd y £6.4 miliwn ychwanegol a wariwyd yn sgîl disgownt treth ryw 879 o swyddi amser llawn a chreu gwerth ychwanegol crynswth o ryw £56.1 miliwn trwy holl gadwyn y gwerth.

| Rhanbarth neu wlad | Cyfanswm y gwario ychwanegol (£m) | Swyddi amser llawn cyfatebol mae'r gwario ychwanegol yn eu cynnal trwy holl gadwn y gwerth | Gwerth ychwanegol crynswth yn sgîl rhagor o wario trwy holl gadwn y gwerth (£m) | Canran yr elw ar ragor o wario yn ôl gwerth ychwanegol crynswth |
|---|---|---|---|---|
| Cymru | 6.40 | 879 | 56.10 | 777% |
| **Llundain** | 1624.40 | 49845 | 3735 | **130%** |
| **De-ddwyrain Lloegr** | 166.10 | 3952 | 241.80 | **46%** |
| **Yr Alban** | 60.40 | 2335 | 137.50 | **128%** |
| **De-orllewin Lloegr** | 46.60 | 2139 | 122.50 | **163%** |
| **Swydd Efrog a Humber** | 39.50 | 2204 | 143.90 | **264%** |
| **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | 25.10 | 1778 | 148 | **490%** |
| **Gogledd Iwerddon** | 25.00 | 2528 | 182.60 | **630%** |
| **Gogledd-orllewin Lloegr** | 12.70 | 909 | 60.80 | **379%** |
| **Dwyrain Lloegr** | 4.80 | 1044 | 75.30 | **1469%** |
| **Gogledd-ddwyrain Lloegr** | 4.70 | 537 | 29.20 | **521%** |
| **Dwyrain Canolbarth Lloegr** | 0.00 | 780 | 42.70 | |
| **Cyfanswm** | **2015.80** | **68390** | **4975.50** | **147%** |

Tabl 5: Gwariant sector y gwneud ffilmiau o ganlyniad uniongyrchol i ddisgownt treth yn 2019, yn ogystal â'r swyddi mae'n eu cynnal a'r gwerth mae'n ei gynhyrchu trwy holl gadwyn gwerth gwneud ffilmiau fesul rhanbarth neu wlad. Ffynhonnell: Adroddiad 2021 Sefydliad Ffilmiau Prydain
Sylwer: Mae Sefydliad y Ffilmiau o'r farn bod y gwario ychwanegol yn nwyrain canolbarth Lloegr yn sgîl disgownt treth yn 2019 yn gyfwerth â dim (o achos talgrynnu, efallai) ac, felly, allwn ni ddim pennu'r gwir ffigur.

[8] Dyw gwariant ychwanegol cymharol fychan sector gwneud ffilmiau Cymru yn sgîl disgownt treth ddim yn dangos bod y sector yn llai na'u cyfatebion ledled y deyrnas. Gall adlewyrchu'r amrywio ynghylch incwm trethadwy yn y gwledydd a'r rhanbarthau eraill. Gall nifer y gwneuthurwyr ffilmiau sy'n gofyn am ddisgownt treth amrywio o ranbarth i ranbarth, hefyd.

## Effeithlonrwydd cyffredinol cymharol gwariant sector y gwneud ffilmiau yn sgîl disgownt treth

Er bod y gwario ychwanegol yng Nghymru yn gymharol isel, gwerth ychwanegol crynswth mwyaf ond un y deyrnas ddeilliodd ohono (777%).

Yn ôl Tabl 6, cynhaliodd pob £100,000 a wariwyd yn sgîl disgownt treth 13.7 swydd amser llawn, [9] sy'n golygu bod gwerth ychwanegol crynswth sector gwneud ffilmiau Cymru ymhlith gorau'r deyrnas. Cynhyrchodd pob punt a wariwyd yn sgîl disgownt treth £.8.8 ychwanegol trwy holl gadwyn y gwerth (bron 800%) - dim ond dwyrain Lloegr sydd wedi rhagori ar hynny.

Ar yr un pryd, mae'r gwerth ychwanegol sydd wedi'i gynhyrchu gan bob gweithiwr newydd mae'i swydd wedi'i chynnal trwy ragor o wario yn sgîl disgownt treth yn is na chyfartaledd y deyrnas (tua £73,000). Mae'r cynhyrchiant ymylol cymharol isel hwn yn awgrymu bod y sector eisoes wedi'i hen sefydlu a bod ychwanegu gweithwyr newydd yn cynhyrchu llai o'i chymharu â rhanbarthau a gwledydd eraill y deyrnas.

Mae hynny'n wahanol iawn i sefyllfa sector teledu pen uchel Cymru ac iddo gynhyrchiant llafur ymylol uchaf y deyrnas ond un (gweler uchod). Er bod cynhyrchiant llafur ymylol sector ffilmiau Cymru yn isel, efallai y bydd modd iddo sbarduno twf sylweddol trwy ffyrdd eraill. Bydd cynhyrchiant llafur ymylol yn cyfateb i safonau technolegol a gweithdrefnol bob amser. Pan fydd cwmnïau'n buddsoddi mewn cyfalaf ychwanegol (diriaethol neu anniriaethol), arloesi neu ymchwil a datblygu, bydd y gweithlu'n fwy cynhyrchiol yn sgîl prosesau, nwyddau a marchnadoedd newydd. Bydd hynny, yn ei dro, yn denu rhagor o weithwyr newydd (ac yn creu swyddi), sy'n arwain yn uniongyrchol at dyfu a datblygu. O ganlyniad, bydd lefelau arloesi creadigol yn benderfynydd allweddol ar gyfer dyfodol sector ffilmiau Cymru.[10]

| Rhanbarth neu wlad | Nifer y swyddi amser llawn cyfatebol mae pob £100,000 o wario ychwanegol wedi'u cynnal trwy holl gadwyn y gwerth | Elw (o ran gwerth ychwanegol crynswth) trwy holl gadwyn y gwerth yn sgîl gwario pob punt ychwanegol | Gwerth ychwanegol crynswth mae rhagor o wario yn ei gynnal trwy holl gadwn y gwerth, fesul gweithiwr |
|---|---|---|---|
| Cymru | 13.7 | £8.80 | £63,822.50 |
| Llundain | 3.1 | £2.30 | £74,932.30 |
| De-ddwyrain Lloegr | 2.4 | £1.50 | £61,184.20 |
| Yr Alban | 3.9 | £2.30 | £58,886.50 |

[9] Fel sydd wedi'i esbonio uchod wrth ddadansoddi elfen gyfatebol cadwyn gwerth sector y teledu pen uchel, dyw hynny ddim yn golygu mai dim ond £100,000 sy'n cynnal cyflogau 13.7 swydd. Yn hytrach, mae'n awgrymu bod y gwario wedi sbarduno prosiectau roedd angen hyn a hyn o weithwyr arnyn nhw.

[10] *https://clwstwr.org.uk/projects*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **De-orllewin Lloegr** | 4.6 | £2.60 | £57,269.80 |
| **Swydd Efrog a Humber** | 5.6 | £3.60 | £65,290.40 |
| **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | 7.1 | £5.90 | £83,239.60 |
| **Gogledd Iwerddon** | 10.1 | £7.30 | £72,231.00 |
| **Gogledd-orllewin Lloegr** | 7.2 | £4.80 | £66,886.70 |
| **Dwyrain Lloegr** | 21.8 | £15.70 | £72,126.40 |
| **Gogledd-ddwyrain Lloegr** | 11.4 | £6.20 | £54,376.20 |
| **Dwyrain Canolbarth Lloegr** | | | £54,743.60 |
| **Cyfanswm** | 3.4 | £2.50 | £72,751.90 |

Tabl 6: Swyddi amser llawn a gwerth ychwanegol crynswth yng nghadwyn gwerth gwneud ffilmiau trwy wario rhagor yn sgîl disgownt treth, yn ogystal â mesur y gwerth ychwanegol fesul gweithiwr newydd. Daw'r data o 2019. Ffynhonnell: Adroddiad 2021 Sefydliad Ffilmiau Prydain

Sylwer: Mae effeithlonrwydd gwario dwyrain canolbarth Lloegr heb ei bennu am nad oes casgliad pendant yn adroddiad Sefydliad y Ffilmiau.

## Casgliadau

Ar y cyfan, mae data Sefydliad y Ffilmiau'n awgrymu bod sector ffilmiau a theledu Cymru yn gweithio'n effeithlon a bod rhagor o wario ynddo yn cynhyrchu llawer o werth a swyddi ychwanegol.

Mae gwerth ychwanegol crynswth Cymru yn uchel iawn yn y deyrnas hon gan fod pob punt ychwanegol sydd wedi'i gwario yn cynhyrchu £8.8. Mae hynny'n awgrymu bod sector ffilmiau a theledu Cymru wedi'i angori'n ddwfn yn economi Cymru ar draws cadwyni gwerth. O ganlyniad, bydd unrhyw gynnydd neu grebachu yn ei gynnyrch yn effeithio'n fawr ar economi'r wlad.

Mae data Sefydliad y Ffilmiau'n dangos posibiliadau mwyaf y deyrnas o ran twf yn sector teledu pen uchel Cymru. Dim ond yng ngorllewin canolbarth Lloegr mae mwy o werth ychwanegol crynswth fesul swydd newydd yn sgîl disgownt treth. Mae hynny'n awgrymu bod cyfraniad ymylol pob gweithiwr newydd at sector teledu pen uchel Cymru yn fawr. Mae'r effaith honno ar y farchnad yn argoeli'n dda ynghylch denu buddsoddwyr ac arbenigwyr i'r sector. Felly, rydyn ni'n disgwyl twf sylweddol yng nghynnyrch a swyddi'r sector dros y tymhorau byr a chanolig.



## Tîm ymchwil

Y Dr Máté Miklós Fodor

Cydymaith Ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd ac Athro Cyswllt Economeg, Ysgol Economeg Newydd (Prifysgol Satbayev)
fodorm@caerdydd.ac.uk

Y Dr Marlen Komorowski

Dadansoddwr Effeithiau ym Mhrifysgol Caerdydd ac Uwch-ymchwilydd yn imec-SMIT-VUB (Vrije Universiteit Brussel) -
komorowskim@cardiff.ac.uk

## Cydnabyddiaeth

Mae’r papur hwn wedi’i baratoi gyda chymorth ariannol Cyngor yr Ymchwil i’r Celfyddydau a’r Dyniaethau a Llywodraeth Cymru.  Yr awduron sy’n gyfrifol am ei gynnwys.

© 2022 Clwstwr, rhaglen ym Mhrifysgol Caerdydd. Cedwir pob hawl.

## Dyfyniad awgrymedig

Fodor, MM a Komorowski, M. (2022). Papur Hysbysu 3 Clwstwr ynghylch Polisïau - Effaith Gostyngiadau Treth Sector y Ffilmiau a Theledu ar Gymru Cynnwys allweddol adroddiad 2021 Sefydliad Ffilmiau Prydain. Cyfres cyhoeddiadau Clwstwr, Caerdydd, Clwstwr.